

RHAGLEN AR-LEIN I YSGOLION

GWEITHGAREDDAU I GEFNOGI YMGYSYLLTU CERDDOROL A LLES

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae cerddorion Live Music Now wedi cyflwyno gweithdai cerddoriaeth a recordiau pwrpasol llwyddiannus ar-lein ar gyfer ysgolion arbennig a theluoedd.

Rydyn ni'n defnyddio llwyfan ar-lein dewisol yr ysgol. Mae ein cerddorion hyfforddedig yn dilyn canllawiau LMN ar gyfer sesiynau ar-lein diogel ac yn cydymffurfio â threfniadau'r ysgol ar gyfer dysgu o bell.

Mae gennym arian i noddi cost sesiynau mewn rhai ardaloedd daearyddol – felly cofiwch ofyn! Cysylltwch â ni heddiw i gael mwy o wybodaeth. Gallwn greu cynnig pwrpasol i ateb gofynion eich ysgol. E-bost: schools@livemusicnow.org.uk


“ Mae cerddoriaeth yn ganolog i'r cwricwlwm adfer. Mae'n chwarae rôl hanfodol mewn ysgolion i helpu eu disgyblion i ymchwilio a mynegi'r emosiynau a'r heriau amrywiol y byddan nhw wedi'u profi yn ystod y pandemig.”

Adroddiad ISM 2020
'[Mae calon yr ysgol ar goll!](#)'



Gweithdai cerddoriaeth rhyngweithiol ar-lein ar gyfer plant bregus/ plant gweithwyr allweddol mewn ysgol

- Sesiynau cerddoriaeth cyfranogol byw 30-45 munud ar gyfer grwpiau.
- Gellir eu llogi fel sesiwn unigol neu gyfres o sesiynau.
- Pwrpasol ar gyfer gofynion pob grŵp – hwyliog a rhyngweithiol.
- Cyngor ar gyfer cynllun yr ystafell ddosbarth a'r defnydd o adnoddau i greu cerddoriaeth yn unol â'r canllawiau diweddaraf.
- Gellir eu ffrydio ar yr un pryd i nifer o ddosbarthiadau neu eu trefnu fel sesiynau dilynol ar gyfer dosbarthiadau ar wahân.
- Gall y pecyn gynnwys cyfres o recordiau pwrpasol ar gyfer eich disgyblion, i gefnogi'r cwricwlwm.
- Gallwn hefyd drafod opsiynau i gynnwys plant yn eu cartrefi eu hunain.
- [Darllenwch yma am sesiynau cerddoriaeth ar-lein yn Ysgol Newlands.](#)



Sesiynau 1:1 ar-lein ar gyfer disgyblion sy'n methu â mynychu ysgol

- Sesiynau personol 30 munud yn canolbwyntio ar ymgysylltu, cyfathrebu a rhyngweithio.
- Cyflwynir gan arweinydd cerddoriaeth profiadol LMN.
- Cynllunir a chyflwynir mewn ymgynghoriad gyda rhieni/ gwarchodwyr/ staff.
- Mae'n helpu i ddarparu gweithgaredd ystyrlon ar gyfer disgyblion ynysig.
- Gellir defnyddio [Sounds of Intent](#) i helpu i fonitro cynnydd.
- Gellir trefnu hyn ochr yn ochr â sesiynau grŵp.



Llyfrgell o gyngherddau fideo am ddim i ysgolion a theuluoedd


www.livemusicnow.org.uk/lmnonlineschools

- 15-30 munud o hyd.
- Perfformiadau wedi'u recordio'n arbennig ar gyfer cynulleidfaoedd ysgolion arbennig – cynhwysol a chyfranogol.
- Amrywiaeth o arddulliau cerddorol.
- I greu cyffro, llogwch sesiwn byw dilynol ar-lein gyda'r cerddor yn y fideo!
- [Gwylwch y rîl arddangos 3 munud yma.](#)



Cyngherddau byw NEWYDD Facebook ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 1

- 2-2.40 bob dydd Iau – [ymunwch drwy ein tudalen Facebook Byw yma.](#)
- Cyngherddau cyfranogol ar gyfer plant 4-7 oed a'u brodyr/ chwiorydd.
- Perfformiad gan grŵp LMN gwahanol bob wythnos.
- Cyfle gwych i ddysgu am wahanol offerynnau a mathau o gerddoriaeth.
- Hyd: tua 35-40 munud.
- Gweithgaredd cyfnod clo gwych i blant iau!
- [I gael rhestr gyflawn a mwy o wybodaeth, cliciwch yma.](#)



Cyngherddau wedi'u ffrydio'n fyw ar gyfer ysgolion unigol a/neu grwpiau o ysgolion

- Llogwch gyngerdd yn cael ei ffrydio'n fyw i gefnogi iechyd meddwl a lles yr ysgol gyfan.
- Gellir ei drefnu ar gyfer grŵp o ysgolion mewn partneriaeth gyda Hybiau Addysg Gerddorol/ Gwasanaethau Cerddoriaeth/ Cadwynau Academaïau.
- Ystod o grwpiau LMN a genres cerddorol i ddewis ohonyn nhw.
- Ffrydio ar Zoom neu lwyfan diogel arall a ddefnyddir gan ysgolion.
- Gall ysgol(ion) anfon dolen cyngerdd ymlaen i deuluoedd gartref.
- Gellir creu deunyddiau dilynol i'w defnyddio mewn ysgol neu gartref.
- [Darllenwch yma am gyngerdd wedi'i ffrydio'n fyw ar gyfer ysgolion yn Nyfnaint a Thorbay.](#)

Cysylltwch â ni heddiw i gael mwy o wybodaeth:

Gallwn greu cynnig pwrpasol i gefnogi anghenion eich ysgol. Ffoniwch 02077591803 neu anfonwch e-bost: schools@livemusicnow.org.uk